



Cyngor Tref Aberteifi :-: Cardigan Town Council

Cofnodion yr is-bwyllgorau a gynhaliwyd yn Ystafell Gynhadledd Antur Teifi
nos Fawrth, 16 Mehefin 2015 am 6.00yh.

Minutes of the sub-committees held at the Antur Teifi Conference Room
on Tuesday, 16 June 2015 at 6.00pm.

Presennol/Present—Cynghorwyr/Councillors John Adams-Lewis (**yn y gadair/in the chair**), Dai Brabrook, Mark Cole, Clive Davies, Graham Evans, Gwynfi Jenkins, Catrin Miles, Jane Roche, Akira Shimazaki.

Ymddiheuriadau/Apologies—Y Cyngh./Cllrs Llwyd Edwards (*anhwylus/unwell*), Richard Jones (*apwyntiad ysbyty/hospital appointment*), Melfydd George (*anhwylus/unwell*).

Croeso'r Maer / Mayor's Welcome

Croesawodd y Maer, y Cyng. John Adams-Lewis, bawb i'r cyfarfod. Estynnodd groeso arbennig i Mr Hiroshi Yakubo, ymwelydd o Siapan, oedd yn bresennol fel sylwebydd personol. Mae Mr Yakubo yn ddarlithydd mewn prifysgol yn Komazawa yn adran y celfyddydau. Cyflwynwyd ef â darlun o Gastell Aberteifi a charden cyfarch personol a arwyddwyd gan y cynghorwyr. Roedd hi'n dda gan y Maer ddatgan bod y Cyng. Llwyd Edwards wedi mynychu cinio blynyddol y clwb rygbi ac ei fod yn teimlo llawer yn well.

The Mayor, Cllr John Adams-Lewis, welcomed all to the meeting and extended a special welcome to Mr Hiroshi Yakubo, a visitor from Japan, who was present as a private observer. Mr Yakubo is a lecturer in the Faculty of Humanities in Komazawa Women's University. He was presented with a framed photograph of Cardigan Castle and a personal greeting card signed by councillors. The Mayor was pleased to announce that Cllr Llwyd Edwards was well enough to attend the annual dinner of the rugby club recently.

Is-bwyllgor Cynllunio / Planning Sub-committee

(Mae gan yr is-bwyllgorau bwerau dirprwyol i ddanfôn sylwadau ar ran y cyngor at Gyngor Sir Ceredigion. Sub-committees have delegated powers to forward council observations to Ceredigion County Council.)

| <i>Rhif y Cais / Application No.</i> | <i>Cyfeiriad / Address</i> | <i>Y Bwriad / Proposal</i> | <i>Sylwadau / Comments</i> |
|--------------------------------------|----------------------------|--|--|
| A150368 | 19 High Street | Provisions of new shop front door set to <u>left</u> -hand side) and upgrades to rear disabled access to create external refuge area. | <i>Mae'r cyngor yn cefnogi'r cais. Disgwylir bod yr arwyddion oddi fewn yn ddwyieithog.</i> The council supports the application. It is expected that all internal signage will be bilingual. |
| A150369 | 19 High Street | Provisions of new shop front door set to <u>right</u> -hand side) and upgrades to rear disabled access to create external refuge area. | <i>Mae'r cyngor yn cefnogi'r cais. Disgwylir bod yr arwyddion oddi fewn yn ddwyieithog.</i> The council supports the application. It is expected that all internal signage will be bilingual. |
| A150373 | 1 Guildhall Square | Display of signage | <i>Mae'r cyngor yn cefnogi'r cais. Disgwylir bod yr arwyddion oddi fewn yn ddwyieithog.</i> The council supports the application. It is expected that all internal signage will be bilingual. |

| | | | |
|---------|---------------------------|---|--|
| A150375 | 1 Guildhall Square | Internal remodelling and external redecorations and new fascia | <i>Mae'r cyngor yn cefnogi'r cais. Disgwylir bod yr arwyddion oddi fewn yn ddwyieithog.</i> The council supports the application. It is expected that all internal signage will be bilingual. |
| A150312 | Houses 5-14b Dôl y Dintir | Substitution of house types and change to layout, including two additional dwellings to form 12 in total (Phase 4 of development) | Councillors have concerns regarding the drainage of surface water bearing in mind that the Mwdan stream alongside has a history of flash flooding. |

A150041—Apêl Arolygiaeth Gynllunio Llywodraeth Cymru: Cyflwynwyd apêl gan yr ymgeisydd yn erbyn y penderfyniad i wrthod caniatâd cynllunio ar gyfer datblygu'r tir gyferbyn i fynedfa Heol yr Orsaf.

A150041—An appeal has been lodged by the applicant with the Planning Inspectorate of the Welsh Government against refusal of permission for the below-mentioned proposal at land opposite the entrance to Station Road, Castle Street.

| <i>Rhif y Cais / App. No.</i> | <i>Cyfeiriad / Address</i> | <i>Y Bwriad / Proposal</i> |
|-------------------------------|---|---|
| A150041 | Land opposite entrance to Station Road, Castle Street | Erection of two 2-storey three bedroom houses and associated works. |

Datgan Diddordeb Rhagfarnol a Pheronol gan Gynghorwyr.

Declaration of Prejudicial and Personal Interest by Councillors.

Y Cyng. / Cllr John Adams-Lewis (*yr holl faterion cynllunio/all planning issues*)

Toiledau Cyhoeddus / Public Conveniences

Llywodraeth Cymru: Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) – Darparu toiledau sydd ar gael i'r cyhoedd eu defnyddio.

Welsh Government: Public Health (Wales) Bill – Provision of toilets available for use by the public.

Argymhellwyd bod y cyngor yn gofyn i Elin Jones AC am wybodaeth ynglyn ag amserlen y mesur a hefyd y modd o ariannu'r cynllun.

It was recommended that the council seeks further information from Elin Jones AM regarding the time schedule of the bill and also the method of funding the project.

Maes Sgrialu / Skateboard Park

Cofnodion 2/6/15, tud. 1003, Eitem 10(c)(ii) (Adroddiad y Cyng. Mark Cole): Cais am drafodaeth ar gyflwr wyneb y maes sgrialu.

Council minutes 2/6/15, page 1004, item 10(c)(ii) (Report by Cllr Mark Cole): Application for discussion on the condition of the surface of the skateboard park.

Dyweddodd y Cyng. Dai Brabrook ei fod ef a'r Bachan Deche wedi archwilio'r maes sgrialu'n ddiweddar a darganfod fod angen cywiro ambell ddarn ohono. Cydnabyddir bod angen y cyfansawdd cywir i gyflawni'r gwaith. Argymhellwyd bod y cyngor yn aros hyd dderbynnir adroddiad blynyddol ROSPA ar y maes sgrialu cyn ymateb – disgwylir hyn cyn diwedd Mehefin.

Cllr Dai Brabrook stated that he and the Handyperson had recently inspected the skateboard park and had found various patches which needed treatment. It was agreed that a certain compound was required to complete the work. It was recommended that the council waits for the annual ROSPA inspection report which is expected before the end of June before taking further action.

Cais am gymorth ariannol / Application for financial aid

Llythyr oddi wrth unigolyn yn gofyn am gymorth ariannol: canllawiau i'w dilyn tan adran 137 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Letter from an individual requesting financial aid: Directives to be observed under section 137 of the Local Government Act 1972.

Gan nad oes hawl gan gynghorau tref a chymuned, tan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (adran 137), estyn cymorth ariannol i unigolyn, awgrymwyd bod y clerc yn anfon yr wybodaeth ganlynol at yr ymgeisydd am gynllun y cyngor sir: Ceisiadau at Mrs Meinir Davies, Cynorthwy-ydd Cyfrifeg (Grantiau) / Gwasanaethau Ariannol Cyngor Sir Ceredigion.

As town and community councils are prohibited by the Local Government Act 1972 under section 137 to financially support individuals. It was recommended that the clerk forwards the following information to the applicant regarding the county council's grant scheme for individuals:
Mrs Meinir Davies, Accountancy Assistant (Grants) / Financial Services, Ceredigion County Council
Datganwyd diddordeb rhagfarnol ar yr eitem uchod gan y Cyng. Clive Davies.
Cllr Clive Davies declared his prejudicial interest with the above item.

Unrhyw fater arall / Any other business

- (a) **Tai Canolbarth Cymru: Rhan-berchenogaeth Cartref: Holiadur.**

Mid-Wales Housing: Shared Home Ownership: Questionnaire.

Awgrymiadau Cyngor Tref Aberteifi ar y syniad o ran berchenogaeth cartref. Mae'r Cynghorwyr yn teimlo ei bod yn beth da caniatáu i denantiaid brynu cyfran o'u heiddo. Maent hefyd yn teimlo bod y canlyniad o ddarparu mwy o gartrefi yn werth gweithredu arno pe bai angen. Teimlir y dylai'r flaenoriaeth gael ei rhoi i bobl leol fanteisio ar y cynllun ac y dylid dilyn polisi gosod lleol. Byddai o fantais i gymdeithasau tai eraill ledled Cymru ddefnyddio'r cynllun yma. Yn olaf, cytunodd y Cyngor na ddylai unrhyw fath o eiddo gael ei eithro o'r cynllun.

Recommendations of Cardigan Town Council regarding the idea of shared ownership of homes. Councillors are of the sound belief that allowing tenants to buy a share of their property is a good idea. They also feel that the outcome of providing more homes is worth pursuing and believe that the local letting policy should be strictly observed for the benefit of local residents. Members added that the scheme should be adopted across Wales by other housing associations. Finally, it was agreed that no type of property should be excluded from the scheme.

- (b) **Codwyd y mater gan y Cyng. Catrin Miles bod ieuenctid yn defnyddio Cei'r Tywysog Siarl fel maes sgrialu sydd yn niweidio'r grisiau ac yn beryg i gerddwyr a phlant. Awgrymwyd bod y Cyng. Miles yn cysylltu ag adain eiddo'r cyngor sir i osod arwydd yn gwahardd hyn.**

The practice of youngsters skateboarding on Prince Charles Quay was raised by Cllr Catrin Miles. Damage was caused to the steps down to the quay and the hazard to pedestrians and children was highlighted. It was recommended that Cllr Miles requests the estates department of the county council to place signs prohibiting the practice.

- (c) **Dywedodd y Cyng. Clive Davies ei fod yn siomedig bod y cyngor sir wedi gwrthod cais am osod gorchudd perthnasol o amgylch blwch band eang cyflym BT tu allan i Ardd Brioude. Awgrymwyd bod y Cyng. Adams-Lewis yn gofyn i'r adran gynllunio ailystyried y penderfyniad.**

Cllr Clive Davies stated that he was disappointed with the decision of the county council to refuse permission to place an appropriate wrap around the BT super-fast control box near the Brioude Garden. It was recommended that Cllr Adams-Lewis contacts the planning department to reconsider its decision.

- (d) **Plâc Gardd Brioude: Dywedodd y Cyng. Adams-Lewis bod yr arwydd gwreiddiol a osodwyd ger y plâc yn yr ardd heb ei ailosod. Awgrymwyd ei fod yn codi'r mater gyda Menter Aberteifi.**

Brioude Garden plaque: Cllr Adams-Lewis stated that the original sign placed alongside the plaque in the garden had not been replaced. It was recommended that Cllr Adams-Lewis requests further information from Menter Aberteifi.

- (e) **Cyhoeddodd y Cyng. Adams-Lewis bod digwyddiad abseilio i gymryd lle ar dŵr Eglwys y Santes Fair ar 15 Awst i godi arian at gronfa'r piano newydd yn yr eglwys.**

Cllr Adams-Lewis announced that a sponsored abseiling event would take place at St Mary's Church on 15 August to raise funds for the new piano thereat.

Er gwybodaeth / For information

15 Mehefin, 6.30yh, Neuadd y Dref: “Dwylo Dawnus” – Arddangosfa o waith wedi ei greu gan fyfyrwyr Coleg Ceredigion.

15 June, 6.30pm, Guildhall: “Dwylo Dawnus” – An exhibition of work hand-crafted by students of Coleg Ceredigion.

17 Mehefin, 6.30yh, Neuadd y Dref: Noson Wobrwyo Coleg Ceredigion.

17 June, 6.30pm, Guildhall: Coleg Ceredigion Prize Evening.

20 Mehefin, rhwng 10.00yb a 6.00yh: Cantorion y Santes Fair – Digwyddiadau cerddorol drwy'r dydd yn Fferm Dyffryn, Llangoedmor.

20 June, between 10.00am and 6.00pm: St Mary's Singers – Musical surprises throughout the day at Dyffryn, Llangoedmor.

25 Mehefin, 12.30yp: Agoriad swyddogol Castell Aberteifi.

25 June, 12.30pm: Official opening of Cardigan Castle.

27 Mehefin, Eglwys Gatholig Aberteifi, 2.30yp: Dydd y Lluoedd Arfog.

27 June, Catholic Church, Cardigan, 2.30pm: Armed Forces Day.